



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymchwilio i farwolaethau plant mewn llety diogel

Diwygiadau i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002

Dyddiad cyhoeddi: 28 Hydref 2016
Ymatebion erbyn 16 Rhagfyr 2016

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ar ddiwygiadau i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 er mwyn hwyluso ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i unrhyw achos lle mae plentyn yn marw mewn cartref plant diogel yng Nghymru.

Sut i ymateb Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i'r cyfeiriad isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

Cynhwyswch gyfeiriadau at y rhynggrwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, ee cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we, neu atodiadau manwl i'r ymgynghoriad

Manylion Cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Gwella Canlyniadau i Blant sy'n Derbyn Gofal
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: sustainablesocialservices@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 3049

Diogelu Data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd

enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Beth sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ar ddiwygiadau arfaethedig i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 er mwyn hwyluso ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (yr Ombwdsmon) i unrhyw achos lle mae plentyn yn marw mewn cartref plant diogel yng Nghymru.

Bydd y diwygiadau yn gosod y gofynion canlynol ar berson cofrestredig cartref plant diogel yng Nghymru i wneud y canlynol:

- hysbysu'r Ombwdsmon am farwolaeth plentyn yn y cartref;
- caniatáu i'r Ombwdsmon fynd ar safle'r cartref a gweld dogfennau a chofnodion y cartref;
- caniatáu i'r Ombwdsmon fynd â chopïau o unrhyw rai o ddogfennau a chofnodion y cartref ymaith o'r safle, ar yr amod bod gan yr Ombwdsmon drefniadau diogel ar gyfer gwneud hynny;
- caniatáu i'r Ombwdsmon (gyda chaniatâd) gyfweld yn breifat ag unrhyw blant, rhieni neu berthnasau, neu bobl sy'n gweithio yn y cartref.

Pam rydyn ni'n gwneud y diwygiadau hyn?

Mae'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn gorff anstatudol annibynnol a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Mae'r Ombwdsmon, y mae ei gylch gwaith yn cwmpasu Cymru a Lloegr, yn ymchwilio i farwolaethau ymhlith carcharorion, unigolion sy'n ddarostyngedig i reolau mewnfudo ac sy'n cael eu cadw yn y ddalfa a phreswylwyr hosteli profiannaeth.

Ym mis Ebrill 2015 ymestynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys ymchwilio i farwolaethau plant mewn cartrefi plant diogel yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys plant o Gymru, gan gynnwys y rhai a osodir mewn cartrefi o'r fath gan awdurdodau lleol yng Nghymru am resymau lles. Er mwyn cefnogi hyn, mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson cofrestredig cartref plant diogel hysbysu'r Ombwdsmon am unrhyw achos lle mae plentyn yn marw mewn cartref plant diogel yn Lloegr a chaniatáu i'r Ombwdsmon fynd ar safle'r cartref a gweld dogfennau a chofnodion. Mae'r darpariaethau perthnasol yn Rheoliadau Cartrefi Plant (Lloegr) 2015.

Ar hyn o bryd nid yw cylch gwaith yr Ombwdsmon yn cynnwys ymchwilio i farwolaeth plentyn a osodir mewn cartref plant diogel yng Nghymru. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnig y dylid ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys cartrefi plant diogel yng Nghymru ond, er mwyn i hyn weithredu'n effeithiol, byddai angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaethau deddfwriaethol sy'n debyg i'r rhai a wnaed yn Lloegr. Byddai ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys Cymru yn dileu'r anghysondeb lle y gall yr Ombwdsmon ymchwilio i farwolaeth plentyn o Gymru a osodir mewn llety diogel yn Lloegr ond nid yng Nghymru (a marwolaeth plentyn o Loegr a osodir mewn llety diogel yn Lloegr ond nid yng Nghymru). Byddai'r diwygiadau i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 yn

hwyluso'r broses o newid cylch gwaith yr Ombwdsmon a sicrhau cysondeb rhwng deddfwriaeth Cymru a deddfwriaeth Lloegr.

Bwriedir i Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2017 ddod i rym ar 1 Ebrill 2017.

Mae un cartref plant diogel yng Nghymru, sef Cartref Plant Diogel Hillside, a reolir gan gyngor sir Castell-nedd Port Talbot. Mae'r darparu llety diogel i blant a phobl ifanc hyd at 17 oed o Gymru a Lloegr. Caiff y mwyafrif eu gosod yn y cartref gan awdurdodau lleol am resymau lles o dan adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r gweddill yn blant neu'n bobl ifanc sydd naill ai'n cael eu cadw yn y ddalfa neu'n bwrw dedfryd.

Dim ond un plentyn sydd wedi marw mewn cartref plant diogel yng Nghymru a Lloegr erioed, a hynny ar ddiwedd y 1990au.

Dangosodd ymgynghoriad anffurfiol â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, Cartref Plant Diogel Hillside a'r Heddlu, fod cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i newid cylch gwaith yr Ombwdsmon i gynnwys marwolaethau plant mewn cartrefi plant diogel yng Nghymru, ac i deddfwriaeth ategol. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn ceisio sylwadau ar y cynnig i ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon ac ar y rheoliadau drafft.

Beth am Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016?

Caiff Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 eu disodli yn y pen draw gan reoliadau newydd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Disgwylir i'r rheoliadau newydd hyn ddod i rym mis Ebrill 2018 a byddant yn gosod dyletswyddau ar y person sy'n gyfrifol am wasanaeth cofrestredig, gan gynnwys llety preswyl i blant. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod dyletswyddau cyfatebol (o ran yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth a marwolaeth plentyn mewn llety diogel) ar yr unigolyn sy'n gyfrifol am gartref plant diogel yng Nghymru.

Bydd yn rhaid i ddarparwyr ailgofrestru o dan Ddeddf 2016 a chynhelir y broses ailgofrestru yn 2018-19 gyda'r nod o'i chwblhau erbyn mis Ebrill 2019. Felly, bwriedir i'r gofynion yn Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygio) 2017 fod mewn grym o 1 Ebrill 2017 nes i ddarparwr llety diogel yng Nghymru ailgofrestru o dan reoliadau a wnaed o dan Ddeddf 2016.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i gynnwys ymchwiliadau i farwolaethau mewn cartrefi plant diogel yng Nghymru?

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch wrthym pam.

2. A ydych yn cytuno â'r cynigion i osod gofynion ar berson cofrestredig cartref plant diogel, fel y'u nodir yn y rheoliadau drafft?

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch wrthym pam.

3. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y rheoliadau drafft?

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n gymwys):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'r cynnig i ymestyn cylch gwaith yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i gynnwys ymchwiliadau i farwolaethau mewn cartrefi plant diogel yng Nghymru?

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch wrthym pam.

Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'r cynnig i osod gofynion ar berson cofrestredig cartref plant diogel, fel y'u nodir yn y rheoliadau drafft?

Ydw / Nac ydw

Os ydych wedi ateb 'Nac ydw', dywedwch wrthym pam.

Cwestiwn 3: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y rheoliadau drafft?

Cwestiwn 4: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: